


# DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG



## Rachel Jowitt

### Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

**Er y galwadau ychwanegol ac eithriadol a welwyd yn sgil pandemig byd-eang, mae'r gwasanaeth wedi cael blwyddyn lwyddiannus.**

**Wrth ddangos ffyrdd arloesol o weithio, a gyda thimau ymroddedig, rydym wedi sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu cynnal. Bodlonwyd dyletswyddau cyfreithiol ac mae prosiectau mawr yn parhau i wneud cynnydd.**

**Mae'r meysydd sydd angen eu gwella ac sydd angen derbyn sylw yn cynnwys ein gallu i reoli prosiectau; diwylliant o ddatblygu gwasanaeth; a rhai meysydd lle mae gwasanaethau neu berfformiad staff yn cael effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.**

**Eir i'r afael â'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol, a'u cynnwys mewn cynlluniau tîm a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mewn ffordd gadarn yn ystod 2022-23.**

## Beth aeth yn dda...

- ✔ Fe wnaeth ein trigolion barhau i dderbyn gwasanaethau craidd yn ystod yr her parhad busnes fwyaf a wynebwyd erioed gan lywodraeth leol. Roedd hyn yn golygu bod ein cymunedau yn cadw'n lân, bod gwastraff ailgylchu yn parhau i gael ei gasglu, ac roeddem yn gallu parhau i gyflawni ein dyheadau glân a gwyrdd.
- ✔ I alinio â'r uchod, mabwysiadwyd dull arloesi er mwyn sicrhau y gallai gwasanaethau addasu ac esblygu'n gyflym. Er enghraifft, fe wnaeth llyfrgelloedd, addysg i oedolion a thrwyddedu i gyd addasu'n gyflym i atebion digidol er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw darfu'n ddiangen ar eu defnyddwyr a'u cleientiaid a'u bod yn gallu parhau i ddefnyddio gwasanaethau yn ôl yr arfer.
- ✔ Mae Glân a Gwyrdd yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae hyn gymaint am roi'r fframwaith strategol ar waith ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ag ydyw'n ymwneud â chasglu biniau a chlirio tipio anghyfreithlon. Yn ystod 2021-22 llofnododd y Cyngor y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a'r Strategaeth Goed sy'n amlinellu sut y byddwn yn rheoli ein hamgylchedd i ddiwallu anghenion, yn awr ac yn y dyfodol, a chydbwyso datblygu a diogelu er budd pawb.
- ✔ Effeithiodd Covid yn aruthrol ar ein gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd. Rhoddwyd cynllun adfer ar waith i sicrhau bod cydymffurfiaeth ar bethau allweddol fel diogelwch bwyd yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod ein trigolion yn parhau i gael eu diogelu rhag niwed.
- ✔ Yn ystod 2021-22 mae'r gwasanaeth wedi derbyn dros £20m o gyllid cyfalaf o ystod o ffynonellau i ddarparu 4 prif brosiect cyfalaf:

  - Gwelliannau i orsaf Pont-y-pŵl/Y Dafarn Newydd i gynyddu parcio a theithio, gwella cysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig i gael mwy o bobl oddi ar y ffyrdd a defnyddio mathau o drafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy

  - Cyfleuster Ailgylchu Newydd i sicrhau bod y gwasanaeth yn wydn, a darparu'r cyfleuster ailgylchu o'r ansawdd gorau i'r farchnad i hyrwyddo'r economi gylchol

  - Cynllun lliniaru Nant Blaen Bran i warchod ein cymunedau a'n busnesau rhag digwyddiadau bwyd yn y dyfodol

  - Prosiect y British sy'n ymdrechu i reoli'r dŵr ar y safle glân a gwyrdd a delio â'r peryglon uchel eu blaenoriaeth ar y safle i'w wneud yn ddiogel.









# Yr heriau eleni…

Mae ein heriau yn seiliedig ar ddarparu gwasanaeth yn ystod 2021-22 a ffocws o'r newydd ar ddata, perfformiad a rheoli risg.

| | Heriau | Atebion/Camu Gweithredu |
|---|---|---|
| **1** | • Mae heriau **staffio** yn thema gyson yng nghamau hunanwerthuso'r tîm, yn cynnwys recriwtio, cadw, capasiti, hyfforddiant a datblygiad a llesiant.<br>• Mae mynd i'r afael â'r materion hyn wrth gydnabod y pandemig wedi gweld newid mewn **ymddygiadau, agweddau a diwylliant yn y gweithle**.<br>• Darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol yn cynnwys **modelau gwahanol** ar gyfer strwythurau staffio.<br>• Mae delio ag **absenoldebau oherwydd salwch** yn y tymor hir wedi bod yn fater allweddol yn 2021-22 ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar gyflawni gwasanaeth ac yn rhoi pwysau ar staff eraill. | • Ymgysylltu ag Adnoddau Dynol ynghylch a all y gwasanaeth gymryd rhan mewn cynlluniau peilot ar fentrau newydd ar gyfer y gweithlu<br>• Alinio achosion busnes staffio a busnes y gwasanaeth i gynllun datblygu'r gweithlu<br>• Ymgysylltu â rheolwyr ac arweinwyr tîm i ddeall a rhagweld pwysau yn well a chreu'r amgylchedd ar gyfer gwahanol atebion a pheidio â derbyn y sefyllfa bresennol.<br>• Datblygu achosion busnes cadarn o ran darparu gwasanaethau'n wahanol gyda strwythur staffio newydd. |
| **2** | • Monitro ac adrodd yn gyson ar reoli prosiectau ar draws y gwasanaeth. | • Gweithredu strwythur rheoli prosiectau newydd a monitro misol. |
| **3** | • Anwadalwch a chwyddiant esgynnol o fewn y sector adeiladu yn effeithio ar gyflawni prosiectau, costau ac amserlenni cyflawni. | • Gwella capasiti o ran rheoli prosiectau a chysoni prosesau tendro gyda cheisiadau cyllid gan gynnwys dyfarnu a chau contractau'n gyflym. |
| **4** | • Cyflawni targedau perfformiad statudol ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu<br>• Gwella'r boddhad y cyhoedd o ran casgliadau<br>• Cyflawni prosiectau a ohiriwyd i ailosod cerbydau gwastraff ac ailgylchu a depo ailgylchu newydd (gohiriwyd yn rhannol oherwydd effaith covid, argaeledd staff, disgyblaeth o ran y prosiect ac oedi cyn rhoi grant). | • Penodi Arweinydd Grŵp newydd ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu<br>• Datblygu opsiynau ac achos busnes ar gyfer gwelliannau a fydd yn galw am benderfyniad yn ystod 2022-23 o ran newidiadau i'r gwasanaeth yn 2023-24.<br>• Datblygu Cynllun Gweithredu Ansawdd Gwasanaeth a monitro fel project<br>• Datblygu rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu newydd ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu<br>• Neilltuo Pennaeth Gwasanaeth newydd fel Rheolwr Rhaglen ar gyfer prosiect amnewid cerbydau. |
| **5** | • Gweithredu Prydau Ysgol Am Ddim i Blant Bawb gan ei gyflwyno i blant cyfnod allweddol 1 ym mis Medi 2022 a chyfnod allweddol 2 ym mis Medi 2023. | • Datblygu strwythur llywodraethu a chynllun gweithredu prosiectau trawsbynciol gyda chymorth yr holl wasanaethau<br>• Galw ar Bennaeth Gwasanaeth newydd i oruchwylio Arlwyo/Glanhau tan Fis Tachwedd 2022 |
| **6** | • Moderneiddio gwasanaeth Strydlun. | • Rhoi canfyddiadau Adolygiad APSE ar waith<br>• Cychwyn cam 2 ar gynhyrchiant/ amserlennu gydag APSE<br>• Adolygu strwythur y gwasanaeth a grëwyd yn 2018. |